# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 20 Awst 2018 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 22 Awst 2018 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 31 Awst 2018 |

---

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd. Craig ab Iago

Aelod Cabinet dros Dai, Diwylliant a Hamdden

---

**Pwnc :**

Ffioedd a Thaliadau ar gyfer defnyddio cyfleuseterau Hamdden a Chwaraeon gan drigolion 70oed+ a Phlant Anabl

---

**PENDERFYNIAD –**

Cymeradwyo newidiadau i'r ffioedd a thaliadau ar gyfer defnyddio cyfleusterau Hamdden a Chwaraeon a gyfer y flwyddyn 2018/19, fydd yn golygu dileu Pris Gostyngedig Ffitrwydd 70+ a Phris Nofio ar Gyfer Plant Anabl.

---

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr adroddiad swyddog atodol

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd
Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodol

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | **Cynghorydd Craig ab Iago** |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | **Amanda Davies, Rheolwr Gyfarwyddwr cwmni Byw'n Iach.cyf** |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad : | 20 – 08 - 18 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | Craig ab Iago |

**Pwnc :**

**Ffioedd a Thaliadau ar gyfer defnyddio cyfleusterau Hamdden a Chwaraeon gan drigolion 70oed+ a Phlant Anabl**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Cymeradwyo newidiadau i'r ffioedd a thaliadau ar gyfer defnyddio cyfleusterau Hamdden a Chwaraeon ar gyfer y flwyddyn 2018/2019, fydd yn golygu dileu Pris Gostyngedig Ffitrwydd 70+ a Phris Nofio ar Gyfer Plentyn Anabl.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mae Adran Economi a Chymuned adolygu a gosod lefelau ffioedd ar gyfer defnyddio cyfleusterau hamdden a chwaraeon y Sir yn flynyddol yn unol â Pholisi Ffioedd a Phrisiau'r Cyngor.

Cynhaliwyd arolwg o restr ffioedd y Gwasanaeth Hamdden yn ystod 2017/18. Darganfuwyd bod y strwythur yn cynnwys cannoedd o brisiau amrywiol, yn gymhleth ac yn anodd i staff ei weithredu a chyfathrebu ac i gwsmeriaid ei ddeall.

Gweithredwyd peth welliannau syml ar Ebrill 1af 2018 wrth gyflwyno Strwythur Ffioedd y flwyddyn e.e. newidiadau oedd ddim yn golygu cost uwch i ddefnyddwyr na risg ariannol i'r Gwasanaeth.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

1. Mae'r Gwasanaeth yn ceisio symud i fodel symlach o gynnig dau bris gwahanol ar gyfer pob "cynnyrch". Mi fydd y pris cyntaf, sef "pris llawn" yn cael ei dalu oni bai fod unigolyn yn disgyn i un o'r categorïau canlynol sydd yn gymwys i dalu'r pris gostyngedig cyson:
   - Plant a phobl ifanc 0-24 oed
   - Pobl dros 60 oed

- Pobl Anabl

2. Mae dau bris ar ôl ar y strwythur presennol sydd yn rhwystro ni rhag symud i'r model symlach uchod, sef:
   - Pris mynediad ffitrwydd ar gyfer rhai dros 70oed, a
   - Pris Nofio ar gyfer Plant Anabl.

3. Oherwydd yr effaith posib ar grwpiau sydd â nodweddion cydraddoldeb, aethpwyd ati i gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb gyda chefnogaeth Swyddog Cydraddoldeb y Cyngor.
   Yn ystod yr asesiad roedd cyfle i bob unigolyn oedd wedi manteisio ar un o'r prisiau uchod dros y flwyddyn diwethaf, nodi'r effaith bydda'r newid yn cael arnynt.

4. Yn sgil yr Asesiad rydym yn argymell dileu'r Pris Ffitrwydd 70+, fydd yn golygu bydd holl drigolion 60+ yn talu un pris gostyngedig cyson a dileu'r pris Nofio Plentyn anabl gan gynnig mynediad am ddim i Blant Anabl i byllau nofio'r gwasanaeth.

5. Does dim effaith ariannol sylweddol ar y gwasanaeth. Disgwylir cynnydd incwm bach wrth i gwsmeriaid 70+ talu'r pris consesiynol newydd tra bydd colled incwm bach wrth i blant nofio manteisio o'r cynnig nofio am ddim. Roedd llai 'na 40 o blant wedi talu'r ffi gwreiddiol yn ystod 2017/18.

6. Daw'r newidiadau uchod i gyd i rym o **1 Hydref, 2018.**

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

**Prif Swyddog Cyllid –**

"Deallaf na fydd effaith sylweddol ar gyfanswm yr incwm perthnasol, felly rwy'n cefnogi'r cynnig yma i symleiddio'r ffioedd."

**Swyddog Monitro –**

"Amlygir bwriad rhesymegol ar gyfer y gyfundrefn ffioedd sydd yn cynnwys ystyriaeth o oblygiadau yn sgil asesiad cydraddoldeb. Dim sylwadau i'w cynnig o safbwynt priodoldeb."